

**PWYLLGOR RHEOLI DATBLYGU**  
**(Arolygiadau Safle)**

**4 Hydref 2021**

Yn bresennol: Dr M Havard (Y Dirprwy Gadeirydd yn y Gadair)  
Cynghorydd M James, Cynghorydd P Kidney, Cynghorydd PJ Morgan, a'r  
Cynghorydd M Williams.

Swyddogion yn bresennol: Mrs N Gandy, Mr M Griffiths, Mrs C Llewellyn.

(Arolwg Safle: Maes Carafanau Meadow House, Summerhill 10.00 a.m. –  
11.00am)

**1. Ymddiheuriadau**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd P Baker BEM, Cynghorydd Mrs D Clements, Cynghorydd K Doolin, Cynghorydd M Evans, Cynghorydd P Harries, Dr R Heath-Davies, Mrs S Hoss, Mrs J James, Mr GA Jones, Cynghorydd R Owens, Dr RM Plummer, Cynghorydd A Wilcox a'r Cynghorydd S Yelland.

**2. NP/21/0085/FUL - Newid defnydd tir ar gyfer lleoli 9 carafan sefydlog wedi'u hadleoli, seilwaith cysylltiedig, gwelliannau i fynedfa presennol y safle a gwaith gwella ecolegol - Parc Gwyliau Meadow House, Stepside, Arberth, Sir Benfro, SA67 8NS**

Estynnodd y Cadeirydd groeso i'r Aelodau i'r cyfarfod a'u hatgoffa mai diben yr ymweliad y diwrnod hwnnw oedd galluogi'r Aelodau i ymgyswngtu â safle'r cais a'r ardal o gwmpas. Ni fyddai trafodaeth yn digwydd na phenderfyniad yn cael ei wneud tan i'r cais cynllunio gael ei ystyried mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Rheoli Datblygu yn y dyfodol.

Atgoffwyd yr Aelodau bod y cais wedi cael ei ystyried yn y Pwyllgor Rheoli Datblygu ar yr 8fed o Fedi 2021 pan gafodd ei ohirio i ganiatáu i arolwg safle gael ei gynnal. Dywedwyd bod nifer o wrthwynebiadau wedi'u gwneud, ond er gwaethaf y gwrthwynebiadau hyn, roedd swyddogion o'r farn, gan fod y cynnig yn cynnwys gwaith tirweddu effeithiol a'r gostyngiad yn nifer yr unedau mewn mannau eraill ar y safle, y byddai hynny yn cael effaith gyffredinol fyddai'n gwarchod ac yn gwella cymeriad presennol y safle a rhinweddau arbennig yr ardal hon o'r Parc Cenedlaethol. Cyn belled â bod hyn yn ddarostyngedig i restr o amodau addas a chwblhau Cytundeb A106 i addasu cyfeirnod y caniatâd cynllunio presennol NP/10/045050 i atal y safle rhag cael ei ddatblygu'n llawn fel yr awdurdodwyd, argymhellwyd bod y cais yn cael ei gymeradwyo. Byddai angen dirprwyo unrhyw gymeradwyaeth i'r swyddogion er mwyn caniatáu cwblhau'r Cytundeb A106.



Dechreuodd yr Aelodau drwy gael golwg ar y safle arfaethedig, yr oedd rhan ohono ar hyn o bryd yn lle storio 'cefn y tŷ'. Dywedodd yr Asiant y byddai cwrt storio yn cael ei greu wrth ymyl y tanceri LPG ger y fynedfa i'r safle. Tynnwyd sylw at leoliad y coed *Leylandii* oedd wedi'u gwaredu, a dywedodd yr Asiant bod y coed hyn wedi'u gwaredu oherwydd eu hoedran a'u cyflwr. Tynnodd y swyddog sylw hefyd at doeau'r tai cyfagos a'r gwahaniaeth yn eu lefelau â'r safle. Dywedwyd bod rhywfaint o waith symud pridd wedi'i wneud i lefelu'r safle, a dywedodd y swyddog y byddai'n ystyried ai ymarferol fyddai cynnwys amod ychwanegol ynghylch lefelau'r safle. Dywedodd hefyd y byddai'r clawdd presennol yn cael ei gadw ac y byddai mwy o waith plannu yn cael ei wneud. Byddai'r pellter rhwng y carafanau a'r clawdd yn amrywio o 7 i 10 metr.

Bu'r Aelodau wedyn yn cael golwg ar y mynediad i'r maes carafanau lle'r oedd yr Awdurdod Prifffyrdd wedi gofyn am welliant i'r llain welededd. Aethant ymlaen i gerdded ar hyd y ffordd i weld y safle o lefel yr eiddo cyfagos. Ar ôl dychwelyd i'r safle, cafodd y Pwyllgor gyfle wedyn i sefyll ar y patio o flaen adeilad y dderbynfa/bwyty oedd yn uwch na'r safle arfaethedig ac oedd felly yn fwy gweladwy i'r eiddo cyfagos.

Wedyn cerddodd yr Aelodau i'r ardal lle byddai'r carafanau yn cael eu hadleoli. Eglurodd y swyddog bod caniatâd 2010 wedi'i weithredu, ond bod nifer y carafanau fel y'u lleolwyd yn llai o ddwysedd na'r hyn a ganiatawyd; byddai'r gostyngiad mewn niferoedd yn cael ei reoli gan y Cytundeb A106. Byddai'r cynlluniau i ddangos y gostyngiad hwn yn cael eu dangos yn y cyfarfod pan ystyrir y cais. Eglurodd yr Asiant, o'r 47 uned a ganiateir, bod 31 wedi'u lleoli yn y cae gogleddol; felly gyda 9 uned i'w lleoli yn unol â'r cais dan ystyriaeth, roedd hyn yn golygu gostyngiad ar y cyfan o 7 uned yn llai ar y safle.

Yna aeth y Pwyllgor ymlaen i gerdded i bwynt uchaf y safle, oedd yn edrych allan tuag at Monkstone Point, i gael y cyd-destun ar gyfer y datblygiad.

Gan ddiolch i bawb am eu presenoldeb, daeth y Cadeirydd â'r ymweliad safle i ben.

